Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pwy sydd yn gallu cael bathodyn glas?

## Y rheolau i Gymru




Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei deall o ‘**Pwy sy’n gymwys i gael Bathodyn Glas?**’.

Chwefror 2024

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma lyfryn hawdd ei ddeall. Ond efallai y bydd angen help arnoch i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Pan mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hynny'n golygu **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth ewch i:

**Gwefan:**
www.llyw.cymru/gwneud-cais-neu-gais-newydd-am-fathodyn-glas

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei deall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**.

# Cynnwys

**Am y llyfryn yma** .......... **4**

**Pwy sydd yn gallu cael Bathodyn Glas** .......... **6**

Awtomatig – Fe fyddwch chi yn cael Bathodyn Glas .......... 6

Dewisol – Efallai y byddwch chi yn cael Bathodyn Glas .......... 9

Dros Dro – Efallai y byddwch chi yn cael Bathodyn Glas am 1 flwyddyn .......... 12

**Pwy sydd ddim yn gallu cael Bathodyn Glas** .......... **14**

**Ffyrdd o wneud cais am Fathodyn Glas** .......... **16**

**Os ydy eich cyngor yn dweud na** .......... **17**


**Dysgu rhagor** .......... **18**

# Am y llyfryn yma

Ni ydy Llywodraeth Cymru.




Mae’r llyfryn yma yn dweud pwy sydd yn gallu cael **Bathodyn Glas** yng Nghymru.



Mae’r **Bathodyn Glas** yn ei gwneud hi’n haws i bobl fynd i lefydd. Mae’n eu helpu nhw i barcio yn agos i’r man lle maen nhw angen mynd.



Rydych chi’n gallu cael **Bathodyn Glas**,  hyd yn oed os nad ydych chi yn gyrru. Mae’r bathodyn ar eich cyfer **chi**.



Rydych chi yn gallu ei ddefnyddio mewn unrhyw gar pan fydd rhywun yn mynd â chi i rywle.



Os oes gennych chi gwestiynau, gofynnwch i'ch cyngor. Nhw sy'n gyfrifol am y **Bathodyn Glas**.

# Pwy sydd yn gallu cael Bathodyn Glas




**Rydych chi'n gallu cael Bathodyn Glas os ydych chi yn un o'r grwpiau yma:**



## Awtomatig – Fe fyddwch chi yn cael Bathodyn Glas

Rydych chi'n gallu cael **Bathodyn Glas** heb asesiad os ydych chi yn cael:




**Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) gyda:**

- 12 pwynt ar gyfer y rhan **cynllunio a dilyn y daith**.
- 8 pwynt neu fwy ar gyfer y rhan **symud o gwmpas**.




**Fe fydd angen i chi ddangos:**

Llythyr dyfarnu gan yr **Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)**.




**Cydran symudedd cyfradd uwch y Lwfans Byw i'r Anabl (HRMCDLA).**




**Fe fydd angen i chi ddangos:**

Llythyr dyfarnu gan yr **Adran Gwaith a Phensiynau**.



**Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog Tariff 1-8** (pob un ohonyn nhw).

Mae hyn yn cynnwys Anhwylder Meddwl Parhaol o dan Tariff 6.



**Atodiad symudedd Pensiynwr Rhyfel.**





**Fe fydd angen i chi ddangos:**

Llythyr dyfarnu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Rydych chi'n gallu cael **Bathodyn Glas** heb asesiad os ydych chi:



**Wedi'ch cofrestru'n ddall neu ag amhariad difrifol ar eich golwg.**



**Fe fydd angen i chi ddangos un o'r pethau yma:**

- Adroddiad gan eich **offthalmolegydd.** Mae hyn yn golygu eich meddyg llygaid.
- Ffurflen CV1/BD8 yn dweud bod gennych chi **amhariad difrifol ar eich golwg (eich bod yn ddall)**.
- Prawf bod eich cyngor wedi eich cofrestru fel rhywun ag amhariad ar eich golwg ar y lefel ddifrifol.

**Ewch i dudalen 15 i weld sut i wneud cais am Fathodyn Glas.**

# Dewisol – Efallai y byddwch chi yn cael Bathodyn Glas



Efallai y byddwch chi yn cael **Bathodyn Glas** os oes gennych chi  rai problemau, ond dydych chi ddim yn cael Budd-daliadau. Dyma nhw:



**Dydych chi ddim yn gallu cerdded, neu mae'n anodd iawn i chi  gerdded. Mae gennych chi broblem fawr gyda symud.**

- Rhaid i chi fod dros 2 oed. Mae gennych chi broblem fydd ddim yn gwella.

- Mae'n rhaid bod angen pethau arnoch i'ch helpu i gerdded neu anadlu er mwyn mynd 50 metr. Pethau fel ffyn cerdded, rholiwr neu gadair olwyn.



**Fe fydd angen i chi:**

Siarad â'ch cyngor yn gyntaf am hyn. Fe fydd angen iddyn nhw wybod mwy i roi **Bathodyn Glas** i chi.



Peidiwch â gofyn i'ch meddyg am lythyr.



**Plentyn o dan 3 oed sydd â phroblem sy’n golygu bod angen:**

- Offer meddygol mawr yn agos atyn nhw sy’n anodd eu cario.
- Bod yn agos at gar i gael cymorth meddygol. Neu angen y car i gyrraedd lle sy’n gallu eu helpu.



**Fe fydd angen i chi ddangos:**

Llythyr gan **bediatregydd**. Meddyg plant ydy hwn.



**Mae gennych chi broblemau mawr gyda’ch dwy fraich.**

Rydych chi yn ei chael hi’n anodd iawn i ddefnyddio, neu dydych chi ddim yn gallu defnyddio, peiriannau parcio. Dim ond pan fyddwch chi yn gyrru’r car rydych chi’n gallu defnyddio’r bathodyn yma.




**Fe fydd angen i chi ddangos:**

Eich trwydded yrru wedi’i godio gyda’r rhifau yma:

- 40 (olwyn lywio wedi’i haddasu) neu
- 79 (cerbydau â manylebau).



**Amhariad gwybyddol difrifol. Dyma pryd mae gennych chi broblem gyda'ch meddwl.**

- Dydych chi ddim yn gallu dod o hyd i leoedd heb rywun i'ch helpu.



**Fe fydd angen i chi ddangos:**

Llythyr gan berson gofal iechyd sy'n eich helpu. Er enghraifft, oddi wrth glinig cof.



**Salwch y byddwch yn marw ohono o fewn blwyddyn sy'n ei gwneud hi'n anodd i chi symud.**



**Fe fydd angen i chi ddangos:**

Ffurflen **SR1** neu lythyr gan nyrs sy'n gwybod am eich problem. Er enghraifft, nyrs o Macmillan neu Tenovus.

**Ewch i dudalen 15 i weld sut i wneud cais am Fathodyn Glas.**

# Dros Dro – Efallai y byddwch chi yn cael Bathodyn Glas am 1 flwyddyn




Rydych chi'n gallu cael **Bathodyn Glas** am 1 flwyddyn os ydych chi yn:



- mynd i wella,
- neu yn aros am help ar gyfer,

problemau mawr sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn i chi symud.

**Mae rhai o'r problemau hyn yn gallu bod yn:**




- Goes wedi torri sydd â gosodiadau metel ynddi am fwy na blwyddyn.




- Rydych chi'n gwella neu'n aros am glun neu ben-glin newydd.



- Rydych chi'n gwella o broblem fawr iawn gyda'ch cefn.



- Rydych chi'n gwella o **strôc** neu anaf i'r pen. Mae **strôc** yn broblem gyda'ch ymennydd sy'n ei stopio rhag gweithio'n dda.




- Rydych chi'n cael help ar gyfer problem fel canser.



**Fe fydd angen i chi ddangos:**

Llythyr gan berson gofal iechyd sy'n eich helpu.



Fel arfer fe fydd eich cyngor yn gofyn i chi gael asesiad i gael **Bathodyn Glas** am flwyddyn.



**Ewch i dudalen 15 i weld sut i wneud cais am Fathodyn Glas.**

# Pwy sydd ddim yn gallu cael Bathodyn Glas




Dydych chi ddim yn gallu cael **Bathodyn Glas** ar gyfer y pethau yma yn unig:



- Bod yn feichiog.




- Cael Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfradd is.




- Cael Lwfans Gweini.



- Problem gydag un fraich.



- Cael problem gyda pasio dŵr neu wneud pŵ, fel clefyd Crohn neu Colitis.



- Problem gyda'ch braich neu'ch coes. Felly mae gennych chi gast arno am wythnosau neu fisoedd.



- Cael problem sydd ddim yn ei gwneud hi'n anodd iawn i chi symud.

# Ffyrdd o wneud cais am Fathodyn Glas

Rydych chi'n gallu:




Gwneud cais ar-lein yn

www.gov.uk/apply-blue-badge.

Fe fyddan nhw yn anfon eich ffurflen at eich cyngor.



Gwneud cais drwy'ch cyngor. Rydych chi'n gallu gweld sut i wneud hynny ar eu gwefan.




Does dim angen i chi dalu am **Fathodyn Glas**. Peidiwch â defnyddio gwefannau sy'n gofyn am arian i gael **Bathodyn Glas**.




Peidiwch â dweud celwydd pan fyddwch chi yn gwneud cais am **Fathodyn Glas**. Mae hynny'n torri'r gyfraith.

# Os ydy eich cyngor yn dweud na



Eich cyngor chi sy’n gyfrifol am y **Bathodyn Glas**.



Efallai y bydd eich cyngor yn dweud nad ydych chi’n cael **Bathodyn Glas**.



Dim ond os oes gennych chi fwy o dystiolaeth i’w dangos iddyn nhw rydych chi’n gallu gofyn eto.




Os nad ydych chi yn hapus gyda’ch cyngor, rydych chi’n gallu cwyno wrthyn nhw.



Dydyn ni ddim yn gallu gwneud i’ch cyngor roi **Bathodyn Glas** i chi.

# Dysgu rhagor



Os oes gennych chi gwestiynau, gofynnwch i'ch cyngor.

I gael mwy o gopïau o'r llyfryn yma:



**E-bost:** CustomerHelp@llyw.cymru



**Ffôn:** 0300 0604400

Rydych chi'n gallu cael y llyfryn yma yn Saesneg. Rydych chi'n gallu ysgrifennu atom neu ein ffonio yn Gymraeg neu yn Saesneg.